

LLAWLYFR
2015 - 2016



www.ysgolbrollifon.org



LLAWLYFR YSGOL BRO LLIFON

ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL

**Ysgol Bro Llifon,
Y Groelson,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL547DT**

Ffôn
01286 830 000

e-bost / e-mail
SwynMaelor@gwynedd.gov.uk



Gwefan/web:
www.ysgolbrollifon.org



LLAWLYFR
2015-2016

PENNAETH

Mrs Swyn Maelor

Annwyl riant/warcheidwad,

Hoffwn ar ran, athrawon, staff ategol a'r Llywodraethwyr estyn croeso cynnes i chi a'ch plentyn i Ysgol Bro Llifon.

Fel y gwyddoch chi gyd mae cyrraedd y cam o sefydlu un ysgol sy'n cynrychioli tair cymuned ym mro'r chwareli wedi bod yn daith i ni gyd. Fe ddywedodd Henry Ford unwaith wrth gychwyn rheoli partneriaeth fusnes newydd: 'Coming together is a beginning; keeping together is progress; working together is success'. Eleni yn ystod y flwyddyn rhagbaratoadol rydym wedi bod yn cydweithio'n hynod lwydiannus fel athrawon, staff ategol a disgyblion y dair ysgol. Mae gennym dîm sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud eu gorau glas i anelu at pob copa fydd yn eu hwynebu hwy.

Copa rhagoriaeth o ran y safonau fydd y plant yn eu cyrraedd; **copa rhagoriaeth** o ran y math o addysg fydd y plant yn eu derbyn a **chopa rhagoriaeth** o ran y **math o blant fyddan** ni'n eu meithrin - plant fydd yn gweld gwerth ynddyn nhw eu hunain ac ym mhawb o'u cwmpas.

Mae gennym dîm sydd yn gweithio i bwrpas, sef cydweitho i greu ysgol lle bydd plant yn cerdded drwy'i drws hi yn blant, hapus, diogel ac ysgogol iddynt ac wrth wraidd popeth a wnawn rhaid sicrhau mai llais a llês y plentyn sydd yn y canol.

Trwy gydweithredu hyderwn y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn un diwyd, diddorol a chofiadwy yn gymdeithasol ac yn addysgol. Gobeithiwn y bydd y llawlyfr yma o gymorth i chi ddod i adnabod yr ysgol a'r modd y gallwch chi atgyfnerthu ein gwaith gyda'ch plentyn.

Yn gywir,
S. Maelor

Swyn Maelor
(Pennaeth)



LLAWLYFR
2015-2016



GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae Ysgol Bro Llifon yn gwasanaethu pentrefi Y Groeslon, Carmel a Bronyfoel. Saif ysgol Bro Llifon ym mhentref Y Groeslon, sydd oddeutu pum milltir o dref Caernarfon. Agorir yr ysgol yn mis Medi; bydd 6 dosbarth gyda chilfach ar gyfer llyfrgell ym mhob un, bydd pob dosbarth gyda llecyn ar gyfer gweithgareddau y tu allan i bob dosbarth. Ceir ystafell goginio, dwy ystafell grŵp un ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, neuadd sylweddol o ran maint gyda ystafelloedd newid ar gyfer y bechgyn a'r merched, maes parcio a chwrt chwaraeon. Clustnodwyd gardd ysgol, lle chwarae caled i'r Cyfnod Sylfaen a iard a chae chwarae eang i weddill yr ysgol.

NODAU AC AMCANION

Nodau

1. Creu awyrgylch hapus a gweithgar sy'n seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal, plant fydd yn gweld gwerth ynddyn nhw eu hunain ac ym mhawb o'u cwmpas fel eu bod yn datblygu yn aelod llawn a chyfrifol o'r gymdeithas.
2. Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posib a chwricwlwm cynhwysol fel bod pob plentyn yn datblygu'i hun i'w lawn potensial.
3. Sicrhau fod pob disgybl yn datblygu i fod yn hyfyder yn y ddwy iaith a'i bod yn cael eu trwytho yn yr etifeddiaeth Gymreig.

Amcanion

1. Ysgogi cydweithrediad a phontio cysylltiad yr ysgol gyda'r gymuned drwy fynd allan i'r cymunedau drwy gymryd rhan ym mywydau'r pentrefi.
2. Ymgylmu'r plant, rhieni, athrawon, staff ategol, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yng ngweithgarwch yr ysgol drwy ddarparu hyfforddiant a manteiso ar eu harbenigedau i gyfoethogi'r cwricwlwm.
3. Cael y plant i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bydd ethos fugeiliol gref a chwlwm cyfeillgarwch yn amlwg yn yr ysgol.

STAFF YR YSGOL

1. Staff Dysgu

Mrs Swyn Maelor Owen	Pennaeth
Mrs Ffion Lloyd Hughes	Dirprwy / Athrawes Blwyddyn 1 a 2
Mrs Gwennan Jones	Athrawes Dosbarth 5 a 6
Miss Lisa Angharad Jones	Athrawes Dosbarth 4 a 5
Mr Aled Einion Evans	Athro Dosbarth 3 a 4
Mrs Gwawr Britton	Athrawes Dosbarth Derbyn ac I
Miss Sioned Olwen Roberts	Athrawes Dosbarth Meithrin
Mr Iwan Wyn Williams	Athro CPA

2. Cymorthyddion

Ms Gwenda Topliss	Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen
Mrs Elin Vaughan Williams	Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen
I'w benodi	Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen
Mr Osian Wyn Jones	Cymhorthydd Anghenion Arbennig

3. Ysgrifenyddes a Chlerc Cinio

Mrs Dilys Ann Jones

4. Athrawon Cerdd Teithiol

Mrs Yvonne Clark	Piano / Ffliwt / Clarinet
Mr Paul Neeb	Gitâr

5. Staff Ategol

Mrs Alwena Roberts	Gofalwraig a Glanhawraig
Mrs Meira Jackson	Glanhawraig
Miss Pauline Williams	Glanhawraig
Mrs Gwenda Williams	Cogyddes
Miss Bethan Pritchard	Uwch -oruchwyliwr Canol Dydd
Ms Alison Childes	Goruchwyliwr Canol Dydd
I'w penodi	Uwch-oruchwyliwr Clwb Brecwast a Goruchwyliwr Clwb Brecwsa



LLAWLYFR
2015-2016



Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae Ysgol Bro Llifon yn ffodus iawn i gael Corff Llywodraethol ymrwymedig a gweithgar.

ENW

Cyng. Eric Merfyn Jones
Mrs Elin Jones
Mrs Nia Pritchard Jones
Mr Alun Wyn Jones
Mr Gwyn Jones
Mr Seimon Williams
Mrs Lona Massarelli-Hughes
Mrs Sharon Owen
Mrs Rebecca Conant
Mrs Gwawr Britton
Mrs Dilys Ann Jones
Mrs Swyn Maelor Owen
Mrs Ffion Lloyd Hughes
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Clerc y Llywodraethwyr

PENODWYD GAN

AALL
AALL
AALL
Cymunedol
Cymunedol
Rhieni
Rhieni
Rhieni
Rhieni
Athrawon
Staff Ategol
Pennaeth
Dirprwy Bennaeth
Mr Cadfan Roberts
Miss Eleri Ann Jones

Os ydych angen trafod unrhyw fater gyda'r Corff Llywodraethol, yna cysylltwch â'r Cadeirydd neu'r Clerc.

Cadeirydd:

Cadfan Roberts, Gorffwysfa, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AA

Clerc:

eleriannjones@hotmail.co.uk

LLAWLYFR
2015-2016

POLISI MYNEDIAD YR YSGOL

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol a Pholisi Mynediad yr Awdurdod. Yn unol â'r polisi hwnnw, derbynnir disgyblion Meithrin yn rhan amser (prynhawn) i'r ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Derbynnir disgyblion oed Derbyn i'r ysgol yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Er mwyn gwenud cais am le yn yr ysgol rhaid felly cyflwyno ceisiadau i Gyngor Gwynedd drwy'r ysgol cyn Ebrill y 1af bob blwyddyn. Bydd y ffurflenni pwrpasol ar gael yn yr ysgol neu gan y Swyddfa Addysg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, sef www.gwynedd.gov.uk.

Yn yr un modd, dilynr Polisi Mynediad yr Awdurdod i drosgwlyddo disgyblion hŷn o un ysgol i'r llall. Mae'n arferol i ddisgyblion sy'n trosgwlyddo i Gyfnod Allweddol 2 a hynny heb eu bod yn medru'r Gymraeg i fynychu'r Uned Iaith ym Maesincla am dymor.

POLISI IAITH

Amcanion Cyffredinol

- Meithrin agwedd gadarnhaol tuag at y ddwy iaith.
- Datblygu gallu ieithyddol yn y ddwy iaith.
- Meithrin diddordeb mewn ffurfiau amrywiol o lenyddiaeth.
- Creu ymwybyddiaeth o werth yr etifeddiaeth Gymraeg.

Prif amcanion gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen fydd rhoi sylfaen gadarn Gymraeg i bob plentyn. Gan mai yn y cyfnod cynnar hwn y mae plentyn mwyaf parod i amsugno iaith, y mae'n bwysig creu amrywiaeth o brofiadau symbylus iddynt.

Yn mlwyddyn 1 a 2 adeiladir ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg, er mwyn galluogi'r plentyn i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law; cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddsygwr Cymraeg ac ymestyn gafael y plant o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 bydd cadarnhâd a datblygiad pellach o Gymraeg a Saesneg pob plentyn, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan fydd yn trosglwyddo i'r ysgol Uwchradd.

Trefnir i hwyrddyfodiaid fynychu'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Maesincla ble mae cyfleusterau ar gyfer cyflwyno cyrsiau dwys arbenigol i ddsygwyr. Bydd y dysgwyr yn trosglwyddo yn ôl i'r ysgol gynradd ymhen tymor.

Fel ysgol rydym yn dilyn canllawiau 'Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd' ac yn dilyn rhaglen weithredu'r cynllun sydd yn arwain at wobrau efydd, arian ac aur o ganlyniad disgwylir mai'r Gymraeg a ddefnyddir i sgwrsio'n anffurfiol yn y dosbarth ac ar y buarth, Gellir gweld copi o'r Polisiau Iaith drwy gysylltu gyda'r Pennaeth.



LLAWLLYFR
2015-2016



TEITHIO A PHARCIO

Cludir plant pentref y Fron am 8.00 o'r gloch o safle bws sydd o flaen Ysgol Bronyfoel. Codir plant Carmel erbyn 8.05y.b. o'r safleoedd bws sydd yn bodoli'n barod yn y pentref. Bydd y bws yn cyrraedd yr ysgol ar gyfer y Clwb Brecwast am 8.15y.b.

Bydd llawer o blant Y Groeslon yn cerdded i'r ysgol a bydd gofyn iddynt ddefnyddio'r llwybr sy'n arwain i'r buarth ganolog. I'r plant hynny sy'n teithio mewn car ac angen eu tywys at giat y buarth gofynnir i'r rhieni barcio yn y maes parcio pwrpasol serch hynny mae safle man gollwng tu allan i'r brif fynedfa. Man gollwng yn unig ar gyfer bysiau a cheir ydyw. Dylid gyrru'n ofalus ac yn bwylllog ger safle'r ysgol bob amser.

ORIAU YSGOL

Bore:	9.00-12.00
Amser chwarae:	10.30-10.45
Amser Cinio	12.00-1.00 (12.15- 1.00 - CA2)
Prynhawn:	1.00- 3.00 (Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2)
Amser chwarae Ysgol yn cau	2.15-2.30 Cyfnod Sylfaen yn unig 3.00 i bawb

Bydd gofal am y plant yn dechrau 10 munud ar ddechrau'r dydd am 9.50y.b ac ar ddiwedd y dydd 3.00 - 3.10 o'r gloch.

Dosberthir manylion ynglyn â gweithgareddau a gwyliau i'r rhieni ar ddechrau pob tymor.

GWEFAN YSGOL

Ar ddechrau tymor nesaf bydd gwefan gynhwysfawr yr ysgol yn cael ei lansio fydd yn cynnwys llythyrau, newyddion, dyddiadur, lluniau, hysbysiadau, adroddiadau a llawer mwy.

www.brollifon.org

Defnyddir system 'Nodyn Bodyn' i anfon negeseuon am yr ysgol at rieni trwy negeseuon testun. Mae'r system yn galluogi'r ysgol i:

- gysylltu â rhieni ar fyr rybudd,
- fod yn rhan o ymgyrch Ysgol Werdd- lleihau'r llwyth papur,
- ganmol plentyn

LLAWLYFR
2015-2016

GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol. Anogir y disgyblion i wisgo crys polo glas tywyll gyda chrys chwys coch â logo yr ysgol arnynt a throwsus neu sgert lliw llwyd ac esgidiau tywyll. Yn yr Haf caniateir gwisgo trowsus byr llwyd neu ffrog goch gingham. Disgwylir i'r plant fod wedi eu gwisgo'n lân a thrwsiadus bob amser. Caiff disgyblion eu hannog i beidio â gwisgo trowsusau chwaraeon na jîns.

Ni chaniateir gwisgo clustdlysau yn yr ysgol ac eithrio 'styds'.

Dylid labelu enw eich plentyn ar bob dilledyn os gwelwch yn dda.

Gellir archebu'r drwy gysylltu ag ysgrifenyddes yr ysgol

PRESENOLDEB

Yn Ysgol Bro Llifon, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig bod y plant yma'n rheolaidd cyn 9.00 er mwyn cychwyn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon.

ABSENOLDEBAU

Yn Ysgol Bro Llifon, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig bod y plant yma'n rheolaidd cyn 9.00 er mwyn cychwyn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon.

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn achlysurol. Pan fo hyn yn digwydd, a fuasech cystal â:

- ffonio'r ysgol,
- ebostio i swyddfa'r ysgol: SwynMaelor@gwynedd.gov.uk neu
- ysgrifennu nodyn byr yn esbonio'r absenoldeb os gwelwch yn dda.

Gofynnwn yn garedig i rieni beidio tynnu plant o'r ysgol yn ystod y tymor i fynd ar wyliau os oes unrhyw fodd o osgoi hyn. Rhydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Llifon ganiatâd i rieni dynnu eu plant o'r ysgol i fynd ar wyliau hyd at gyfnod o 10 diwrnod mewn blwyddyn. Cyn trefnu gwyliau yn ystod wythnos ysgol dylai rhieni gael caniatâd y Pennaeth. Gall y polisi hwn newid ar fyr rybydd i gyd-fynd â rheolau statudol y Llywodraeth. Gofynnir i rieni blwyddyn 2-6 sicrhau presenoldeb eu plant yn ystod cyfnod y Profion Cenedlaethol (mis Mai).

Pan mae presenoldeb afreolaidd disgybl yn achosi pryder gofynnir am gymorth Swyddog Lles Addysg.

Fe fydd y Corff Llywodraethol yn hysbysu rhieni'r ysgol yn ysgrifenedig o ganran absenoldebau y plant gyda a heb ganiatâd h.y. gyda neu heb esboniad ysgrifenedig am absenoldebau, yn ei Adroddiad Blynyddol i rieni.



LLAWLYFR
2015-2016



TREFN DIWRNOD

CYRRAEDD YR YSGOL

Mae'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am y plant yn swyddogol am 8.50 a.m. ac ni ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn hynny oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast.

Disgwylir i'r plant ddefnyddio'r giât sy'n arwain at fuarth yr ysgol.

CLWB BRECWAST

Cynhelir Clwb Brecwast yn Ysgol Bro Llifon. Mae'n glwb rhad ac am ddim i bob plentyn o oed ysgol. Bydd y Clwb ar agor rhwng 8.10 - 8.40y.b.

GADAEL YR YSGOL

Dylai'r rhieni ddod i gyfarfod y plant at giât yr ysgol a bydd yr athrawon yn eu danfon yn ddiogel. Os digwydd i riant fod yn hwyr yn dod i nôl plentyn, bydd yr athrawes yn mynd ag ef/hi yn ôl yn ddiogel i'r dosbarth. Gofynnir i rieni sy'n hwyr ddod i mewn i'w nôl drwy brif fynedfa'r ysgol.

Yn naturiol, nid oes hawl gan blentyn o'r Cyfnod Sylfaen i adael tîr yr ysgol heb ganiatâd a heb oedolyn i'w gyrchu. Cofiwch roi gwybodaeth i ni yn yr ysgol, yn ogystal ag i'ch plentyn, os bydd unrhyw newid yn y trefniadau arferol ar gyfer codi plant o'r ysgol.

Os yw eich plentyn yn yr adran lau mi fyddem yn gofyn i chwi, fel rhieni, lenwi ffurflen ganiatâd i blentyn gerdded adref.

Bydd y bws yn gadael am bentref Carmel a Bronyfoel am 3.00 ac yn gollwng y plant yn y llochesi bws priodol am 3.10 yng Ngharmel a 3.15 ym Mronyfoel.

Ni ellir gadael i blentyn fynd o'r ysgol yn gynnar oni bai fod cais ysgrifenedig yn cael ei dderbyn.

CINIO YSGOL

Anogir pob disgybl i gymryd prydau ysgol ac mae'r bwyd a ddarperir yn arlwy cytbwys ac iach. Os oes gan eich plentyn alegredd at fathau gwahanol o fwyd dylid cynnwys y wybodaeth ar ffurflen fynediad eich plentyn neu drwy gysylltu â'r Pennaeth.

Mae'r plant i gyd yn bwyta o dan arolygaeth yn y neuadd.

Cesglir yr arian cinio gan y clerc cinio pob bore Llun neu ddiwrnod cyntaf wythnos addysgol gofynnwn i roi'r arian mewn amlen wedi labelu gyda enw'r plentyn. Os ydych yn dymuno i'ch plentyn gael cinio ysgol ar ôl bod ar focs bwyd am gyfnod o amser a fydddech cystal a rhoi wythnos o rybudd ur un modd os yw eich plentyn yn dymuno newid l focs bwyd.

LLAWLYFR
2015-2016

BOCS BWYD

Er mwyn hyrwyddo bwyta'n iach a gofal am y dannedd, gofynnwn yn garedig i chi gefnogi'r ymgyrch 'Ysgol Iach' wrth baratoio bocs bwyd eich plentyn. Awgrymir dau beth melyn yn unig e.e. iogwrt a bisged/teisen. Ni chaniateir melynion, siocled na diodydd siol.

BYRBRYD AMSER EGWYL

Ffrwythau yn unig a ganiateir yn ystod amser egwyl. Sefydlir Siop Ffrwythau yn ystod y tymor cyntaf.

DŴR

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd yfed digon o ddŵr yn ystod y dydd. Anogir y plant ddod â photel fach blastig o ddŵr plaen heb flas i'r ysgol yn ddyddiol. Byddant yn cadw eu potel wrthlaw bob amser tra byddent yn gweithio a lleolir ffynnon ddŵr yn y coridor i'r plant ail-lenwi eu poteli.

GOFAL BUGEILIOL

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro/athrawes arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am lês yr holl ddisgyblion. Mae Ysgol Bro Llifon yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i ymddwyn yn barchus a chwrtais bob amser.

CYNNAL YMDDYGIAD DA A DISGYBLAETH

Disgwylir i bob disgybl gyfrannu at greu cymdeithas wâr yn yr ysgol drwy:

- Fod yn feddylgar, yn garedig, chwrtais ac yn foneddigaidd yn ei berthynas â disgyblion eraill, holl staff yr ysgol ac unrhyw ymwelwyr.
- Fe'u hanogir i ystyried ac i barchu hawliau ac eiddo pobl eraill,
- Gwneud pob ymdrech i gadw'r ysgol a'i hamgylchedd yn daclus gan roi pob ysbwriel yn y biniau.
- Peidio â dod â phethau personol i'r ysgol e.e., tegau oni ofynnir amdanynt gan yr athro/athrawes ddsbarth.

Mae'r drefn disgyblu yn seiliedig ar bolisi o ganmol a chlodfori'r ymddygiad a ddymunir. Mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion cynnal ymddygiad da Webster Stratton. Mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ymddygiad ei ddsbarth ei hun, ond os oes angen, gellir cyfeirio disgybl i sylw'r Dirprwy neu'r Pennaeth.



LLAWLYFR
2015-2016



Mae'r ysgol yn ceisio dysgu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng ffraeo dydd i ddydd rhwng ffrindiau a chyfoedion, a bwlio. Mae bwlio yn weithred fwriadol a bygythiol sy'n gamddefnydd o bŵer. Ni ddioddefir unrhyw fath o fwlio yn yr ysgol. Os bydd bwlio'n digwydd yna delir â'r mater yn unol â'r canllawiau y Polisi Gwrth- Fwlio..

Mae gan yr ysgol Bolisi Grym Rhesymol sydd i'w weithredu gan staff dan amgylchiadau arbennig er mwyn cynnal lefel dderbyniol o ddiogelwch

DIOGELWCH

Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion a staff yn gyson. Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch wrth y brif fynedfa cyn cael mynediad i weddill yr ysgol a bydd disgwyl iddynt gofnodi i mewn ac allan o'r adeilad a gwisgo'r bathodyn adnabod. Mae gan yr ysgol system larwm lladron sydd wedi ei gysylltu â'r orsaf heddlu, a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol.

Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant.

Pe bai raid cau'r ysgol mewn argyfwng byddai'r staff yn gwneud eu gorau i gysylltu â chi yn uniongyrchol. Mae'n hollbwysig felly eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol pe bai eich manylion cyswllt megis ffôn yn newid.

Cymerir pob gofal posib am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, a chysylltir â'r gwasanaethau brys i gludo'r plentyn i Ysbyty Gwynedd.

GORUCHWYLIO

Goruchwylir y plant gan yr athrawon a'r cymorthyddion cyn dechrau'r ysgol (8.50-9.00) ar ddiwedd prynhawn (3.00) ac yn ystod egwyl y bore a'r prynhawn. Yn ystod amser cinio goruchwylir plant gan ddwy oruchwylwraig a chymhorthyddion. Yn ystod tywydd garw, byddent yn goruchwyllo yn eu dosbarthiadau.

TYWYDD GARW

Gwenir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Bydd yr ysgol yn eich hysbysu drwy wefan y Cyngor a Gwefan Yr Ysgol os fydd yr ysgol yn gorfod cau.

Os mewn amheuaeth ffoniwch yr ysgol. Weithiau, bydd angen anfon y plant gartref yn gynnar ond byddwn yn ffonio'r cartref yn gyntaf neu gysylltu â'r system nodyn bodyn, neu bydd gwybodaeth ar ein gwefan, sef: www.ysgolbrollifon.org.

CYFLE CYFARTAL

Yn unol â Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000, mae'r ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol ac i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil neu ryw.

Mae gan yr ysgol ystod o bolisiau sy'n ymwneud â hyrwyddo cynhwysiad gwahanol ddisgyblion. Gellir cael copi o unrhyw un o'r polisiau hyn drwy gysylltu â'r Pennaeth.

Mae'r Polisi Hygyrchedd yn cyfeirio at y trefniadau i hwyluso mynediad i ddisgyblion ag anabledd. Gwneir pob ymdrech i sicrhau nad ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Sicrheir cefnogaeth fugeiliol ac academaidd gydradd i ddisgyblion ag anableddau o fewn fframwaith arferol yr ysgol.

DISGYBLION GYDA ANABLEDDAU

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae Ysgol Bro Llifon yn anelu at sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r disgybl. Rydym yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol a gwasanaethau eraill sydd yn berthnasol i'r plentyn a'i anawsterau.

Y Pennaeth sydd a'r cyfrifoldeb terfynol dros y polisi a Mrs Ffion Lloyd Hughes yw Cyd - lynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol a yw'r Llywodraethwr Dynodedig.

Bydd pob disgybl ag AAA yn dilyn y cwricwlwm gyda disgyblion eraill. Os cyfyd anawsterau, yna:

- a. rhoddir sylw unigol fewn y dosbarth;
- b. paratoir gwaith gwahaniaethol gan yr athrawon dosbarth a chan yr athrawes AAA;
- c. ymgynghorir gydag asiantaethau cynhaliol;
- ch. cynhelir trafodaethau gyda rhieni;
- d. llunir cynllun addysg unigol i ddisgyblion o fewn Cymorth gan yr Ysgol, Cymorth gan yr Ysgol a Mwy ac ar gyfer disgyblion sydd ar Ddatganiad.



LLAWLYFR
2015-2016



Darperir cefnogaeth mewn grwpiau bychan i rai disgyblion yn wythnosol, yn bennaf er mwyn datblygu llythrennedd a rhifedd a bydd rhai yn derbyn sylw wythnosol gan Athrawes Gwybyddiaeth a Dysgu y dalgylch. Gall yr AALI drefnu lleoliad mewn Unedau Arbennig i rai disgyblion.

Ein nod fel ysgol fydd cynnig arweiniad a darpariaeth a fydd yn gweddu i anghenion eich plentyn trwy gydol ei yrfa yn yr ysgol. Os bydd unrhyw bryderon gennych ynglŷn â datblygiad eich plentyn neu weinyddiad y Polisi Anghenion Arbennig fe'ch anogir i gysylltu yn gyntaf ag athro / athrawes eich plentyn neu gyda'r Pennaeth.

CWRICWLWM YR YSGOL

Cyflwynir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r dull thematig.

Y CYFNOD SYLFAEN

Dilynr saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gyda'r disgyblion rhwng 3 i 7 oed.

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygu'r Gymraeg
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

CYFNOD ALLWEDDOL2

Dilynr Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 gyda disgyblion 7-11 oed.

- Pynciau Craidd - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth
- Pynciau Sylfaen - Hanes, Daaryddiaeth, Addysg Grefyddol, Cerdd, Celf, Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg ac Addysg Gorfforol

Yn naill gyfnod allweddol dilynr gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ogystal â'r Fframwaith ar gyfer Addysg Personol a Chymdeithasol ac Addysg Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

ADDYSG GORFFOROL

Mae Ysgol Bro Llifon yn darparu amgylchedd sy'n symbyliad ac yn ddiogel i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol.

Ein nod yw datblygu cryfder, rheolaeth ac esthetrwydd y plant trwy eu cael i fod yn gorfforol weithgar. Byddent hefyd yn cael cyfleoedd i weithio'n annibynnol a chydweithio ag eraill ac i lunio a rheoli gemau eu hunain.

Cynhelir gwersi Addysg Gorfforol o leiaf unwaith yr wythnos i blant y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yng nghampfa'r ysgol, ar y buarthau, yn y pwll nofio yn y Ganolfan Hamdden neu yn y ganolfan tennis. Bydd mangre'r gwersi'n dibynnu ar ba uned o waith bydd y dosbarth yn ymdrin â hi ar y pryd ac ar y tywydd.

Disgwylir i'r plant wisgo dillad priodol ar gyfer y gwersi. Golyga hyn newid cyflawn o'u gwisg uchaf h.y. pâr o siortiau chwaraeon plaen (dim denim) a chrys-T chwaraeon (nid festiau). Byddant angen treinyrs ar gyfer gweithgareddau ar y buarthau / cae.

Ni chaniateir gwisgo modrwyau, clustlysau nac oriawr mewn unrhyw wers Addysg Gorfforol, (gwerthfawrogir petai'r plant yn eu gadael adref ar ddyddiau Addysg Gorfforol).

Os oes unrhyw reswm meddygol pam na all plentyn gymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol, gofynnir yn garedig i'r rhieni hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig. Cefnogir cystadlaethau dalgylchol a sirol pêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, athletau a chyfeiriannu. Yn ogystal cynhelir mabolgampau ysgol yn flynyddol. Cynhelir sawl Gala Nofio yn ystod y flwyddyn. Caiff pob disgybl yn **Cyfnod Allweddol 2** gyfle yn ystod y flwyddyn addysgol i gyfres o wersi nofio, yng Nghanolfan Hamdden Arfon.

Fe'ch hysbysir mewn da bryd pan fydd eich plentyn yn mynychu. Mae'r gwersi'n rhan o weithgareddau'r ysgol, ac fe ddisgwylir i bob disgybl fynychu'r gwersi. Gofynnir i'rrhieni hysbysu'r athro dosbarth drwy lythyr, os na fydd eu plentyn yn mynychu.

ADDYSG GREFYDDOL A CHYD ADDOLI

Ceir cyfnod o addoli ar y cyd yn ddyddiol; ar lefel adran neu ysgol gyfan ddwy waith yr wythnos ac yn y dosbarthiadau ar ddyddiau eraill. Y ffydd Gristnogol a gyflwynir yn bennaf yn yr addoli hwn a chaiff disgyblion gyfle i gymryd rhan yn rheolaidd.

Mae gan rieni hawl i ofyn i'r ysgol eithrio eu plant o wersi addysg grefyddol a chyfnodau o addoli ar y cyd. Dylai rhieni sy'n dymuno gwneud hynny ddod i drafod y mater gyda'r Pennaeth.



LLAWLYFR
2015-2016



LLAWLYFR
2015-2016

CERDDORIAETH

Cynigiwn wersi offerynnol mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ysgolion William Mathias.

Nod y bartneriaeth yw galluogi disgyblion i dderbyn hyfforddiant gan diwtoriaid arbenigol yn ystod oriau dysgu.

Darperir 30 gwrs o fewn y flwyddyn ysgol. Bydd y tiwtoriaid yn cynorthwyo gydag ymarfer cyngherddau, gwaith arholiadau a chystadlaethau'r Urdd.

Ar hyn o bryd cynigir gwrsi offerynnol piano, fflwt, clarinet a gitâr i ddisgyblion blyneddoddedd 3,4,5 a 6.

Bu lle amlwg i waith lleisiol ym mywyd disgyblion Ysgol Bro Llifon a bydd cyfle iddynt gystadlu yn Eisteddfodau yr Urdd.

Cynhelir Cyngherddau Nadolig yn yr ysgol yn flynyddol, lle caiff pob disgybl y cyfle i ymddangos ar y llwyfan.

ADDYSG RHYW

Cyflwynir addysg rhyw a pherthnasoedd fel rhan o addysg bersonol, gymdeithasol a moesol y plentyn fel bod rhywioldeb yn cael ei adnabod fel priodwedd naturiol a chyffredin i bawb gan, ar yr un pryd, sylweddoli bod iddo oblygiadau personol, cymdeithasol a moesol. Mae addysg rhyw hefyd yn rhan o'r cwricwlwm Gwyddoniaeth.

Fe ymdrinnir â'r maes mewn ffordd sensitif a synhwyrol. Mae gan rieni hawl i eithrio eu plant o wersi addysg rhyw ffurfiol a gwneir pob ymdrech rhesymol i barchu'r hawl hwnnw. Am wybodaeth bellach dylid cysylltu â'r Pennaeth. Gellir gweld copi o'r Polisi yn yr ysgol.

Os nad yw rhieni'n fodlon i'w plant dderbyn gwybodaeth am addysg rhyw, dylid cysylltu â'r Pennaeth.

CYTUNDEB CARTREF YSGOL

Mae gan yr ysgol 'Gytundeb Cartref / ysgol' sy'n nodi yr hyn a ddisgwylir gan yr ysgol o safbwynt ymrwymiad rhieni / gwarcheidwaid a disgyblion i gefnogi'r ysgol ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gwasanaeth gorau i rieni / gwar-heidwaid a disgyblion.

GWAITH CARTREF

Gosodir gwaith cartref yn achlysurol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn wythnosol ym mlwyddyn 2. Yng Nghyfnod Allweddol 2 rhoddir gwaith cartref wythnosol a disgrifir y tasgau ar ffurflen yn llyfr gwaith cartref y plentyn. Gobeithir y byddwch fel rhieni yn cydweithredu i hybu ac annog eich plentyn i gwblhau'r gwaith. Yn achlysurol bydd gweithgaredd yn gofyn am ymchwil neu wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion ar gyfer tasg amrywiol er mwyn apelio at ddant pob plentyn. Dro arall rhoddir tasg fydd yn atgyfnerthu gweithgareddau'r dosbarth o ran llythrennedd, rhif neu waith thematig.

DARLLEN

Bydd pob plentyn o'r dosbarth Meithrin (trydydd tymor) hyd at flwyddyn 6 yn derbyn llyfr/au yn wythnosol. Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad i hybu darllen yn gyffredinol er budd eich plant. A fydech gystal â sicrhau fod eich plant yn dychwelyd y llyfrau a ddarllenwyd yn wythnosol ynghyd â'r llyfr cofnod darllen. Gofynnir i chi roi sylwadau yn y llyfr a'i lofnodi.

ASESU

Cynhelir **Nosweithiau Rhieni** ffurfiol dwy waith y flwyddyn lle caiff y rhieni sgwrs hefo'r athro dosbarth i drafod cynnydd yng ngwaith eu plant. Mae cynnig iddynt gyfarfod ar ddiwedd y trydydd tymor hefyd yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol a chanlyniadau diwedd Cyfnod Allweddol a Phroffion Cenedlaethol.

Mae gwybodaeth am gwricwlwm yr ysgol a gwybodaeth a lluniau ar wefan yr ysgol fel fod rhieni'n ymwybodol o themau a rhaglenni gwaith y tymor.

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae gan yr ysgol raglen o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys cystadlu mewn eisteddfodau, perfformio mewn cyngherddau a rhaglen chwaraeon.

YMWELIADAU

Trefnir ymweliadau yn ymwneud â'r themâu tymhorol. Bydd yr athrawon dosbarth yn ymchwilio i ymwelidadau pwrpasol fydd yn cyfoethogi dysgu ac addysg effeithiol. Gwahoddir siaradwyr/wragedd gwadd i annerch y plant yn yr ysgol.

CLYBIAU AR ÔL YSGOL

Cynhelir clybiau amrywiol yn ystod y flwyddyn rhwng 3:00pm a 4:10pm megis Campau'r Ddraig, Clwb Coginio, Clwb Cerdd a'r Urdd Anfonir rhaglen digwyddiadau at rieni ar ddechrau pob tymor yn nodi'r gweithgareddau a'r dyddiadau perthnasol.



LLAWLYFR
2015-2016



CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg rad ac am ddim ac felly hefyd yn Ysgol Bro Llifon. Rhagwelir y trefnir rhai teithiau yn ystod oriau ysgol na fydd yn rhan hanfodol o'r gwaith cwrs, ond a fydd yn brofiad llesol i'r disgyblion. Yn ôl y Ddeddf, er nad oes gan ysgol hawl i godi tâl am deithiau o'r fath, mae ganddi hawl i:

- ofyn am gyfraniad gwirfoddol tuag at gost o drefnu'r fath daith
- ofyn i asiant allanol i drefnu'r daith

Heb gyfraniadau tebyg, mae'n bosibl na fydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal. Mae hawl gan y Pennaeth i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os yw cyfraniadau isel yn golygu colled sylweddol i'r ysgol.

Awdurdodir y Pennaeth i ofyn am daliadau ar gyfer y canlynol:

- gwersi cerdd unigol,
- gweithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau'r ysgol yn ôl amodau'r Ddeddf,
- mewn achosion lle achosir difrod i unrhyw ran o adeiladau'r ysgol yn dilyn ymddygiad disgyblion,
- pan fydd disgybl yn colli neu'n difrodi llyfr, cyfarpar neu eiddo sy'n perthyn i'r ysgol, l aelod o staff neu ddisgybl arall.

CYNGOR YSGOL

Yn ysgol Bro Llifon bydd gan ddosbarthiadau blynyddoedd 2-6 Gyngor Dosbarth ac ar ddechrau pob blwyddyn ysgol cynhelir pleidlais ble mae pob Cyngor Dosbarth yn ethol dau i'w cynrychioli ar y Cyngor Ysgol. Mae'r Cynghorau Dosbarth ac Ysgol yn rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi barn a chydweithio mewn partneriaeth gyda Staff a Llywodraethwyr a'r gymuned i wella a datblygu'r ysgol er llês pawb.

YSGOL WERDD AC YSGOL IACH

Mae'r ysgol yn perthyn i gynlluniau Ysgolion Iach ac Ysgolion Gwyrdd. Rhydd hyn gyfleoedd i'r disgyblion sylweddoli pwysigrwydd cadw'n iach a ffitrwydd yn ogystal â materion yn ymwneud â chadwraeth, ail-gylchu ac arbed ynni.

Y DREFN GWYNO

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi ynglŷn â'r drefn i'w dilyn pan dderbynnir cwynion yn gysylltiedig â'r ysgol. Ym mhob achos dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf, neu gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr os yw'r gŵyn am y Pennaeth.

Pwysleisir, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy y styriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol. Os nad ydych yn fodlon yn dilyn trafodaeth â'r Pennaeth a chyfnod rhesymol i ddelio a'r anghydfod, yna cynghorir chwi i gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethol.

CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT

Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o **gam-driniaeth** neu **esgeleustod posibl** a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r

Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth. Mae Ysgol Bro Llifon yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen yn ein polisi:-

- a. atal drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion;
- b. gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion neu amheuon o gam-drin ac adrodd arnynt. Oherwydd ein cysylltiad beunyddiol â phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar unrhyw arwyddion allanol o gam-drin; a
- c. chefnogi disgyblion a allai fod wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol, ac i'r llywodraethwyr. Efallai mai cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon, fydd y bobl gyntaf y mae plentyn yn datgelu gwybodaeth iddynt.

Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn Ysgol Bro Llifon yw- **Swyn Maelor**



LLAWLYFR
2015-2016



Pryderu am blentyn

Cysylltwch â'r isod os ydych yn pryderu bod plentyn yn dioddef niwed neu esgeulustod neu'n cael ei gamdrin. Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ymchwilio a gweithredu i warchod y plentyn, cynnig cefnogaeth a chynghor i helpu teuleuoedd i gael cymorth angenrheidiol.

Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn
Ysgol Bro Llifon yw- Swyn Maelor

Cydgysylltydd o blith uwch dm rheoli'r ysgol.

Enw: Mrs Ffion Hughes, Ysgol Bro Llifon, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd
Rhif ffôn cyswllt -

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Enw :

Aelod o'r Llywodraethwyr

Enw:

Person cyswllt yn yr awdurdod

Enw: Mr Rob Jewell, Cydlynnydd Addysg Grwpiau Bregus, Cynghor Gwynedd
RobJewell@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn cyswllt - 01286 679007

neu

Drwy'r Tîm Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol
01758704455 (9:00-17:00, Llun-Gwener)

Ffôn tu allan i oriau: 01248 353551 (unrhyw amser arall ac ar Wyl y Banc)

E-bost: cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt yn yr awdurdod os oes honiadau sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r pennaeth.

LLAWLYFR
2015-2016